

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Ebrill 11, 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Janet Edwards, Linos Williams, Carwyn Evans a John Hughes. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Gethin Williams a Peredur Jenkins.

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 14, 2017**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 14, 2017**

Eitem 10.b. Llythyr ateb (28/3/2017) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â'r cwt haearn sydd wedi ei osod ar ochr y ffordd Swyn y Nant, Bontddu. Maent eisiau gwybod pwy sy'n berchen arno a pa mor hir y mae wedi bod yno.

Cafwyd gwybod y perchennog y cwt haearn yw Mr Paul Williams, 8 Swyn y Nant, Bontddu, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2UB. Mae'r cwt haearn wedi bod ar y safle ers tua pedwar mis. Rhoddwyd gwybod i'r Parc.

Eitem 8.11. Anfonwyd y ffurflenni i'r aelodau oedd yn absennol o'r cyfarfod.

**5. Materion Ariannol**

a. Bil (14/3/2017) treth annomestig Genedlaethol ar gyfer 2017/18 tuag at Public Convenience Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Mae'n cael ei dalu trwy Direct Debit. Taliad 07.04.2016 = £20.05, ac yna £23.00 y mis (dros 9 mis). Cyfanswm yn £227.05 (llynedd y cyfanswm oedd £277.02).

b. Llythyr (16/3/2017) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £450.

c. Llythyr (8/3/2017) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

d. Llythyr (21/3/2017) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2017

dd. Llythyr (21/3/2017) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn yn diolch am ein rhodd o £100.

e. Llythyr (22/3/2017) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £450.

f. Llythyr (23/3/2017) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn diolch am ein rhodd o £50.

ff. Llythyr (16/3/2017) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 05/04/2017).

ii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5 Ebrill 2017.

Penderfynwyd talu'r bil.

g. Llythyr (16/3/2017) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen cyn Mehefin 20, 2017.

Derbyniwyd llythyr (4/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent yn gwneud ymoliadau ynglŷn â sylw BDO yr angen i ddarparu cofnodion a chofrestr diddordebau yn Gymraeg a Saesneg.

Gofynnodd y Clerc am ganiatad i gyflwyno adroddiad Cyfrifon 2016-2017 i'r Cyngor. Cytunwyd â'r cais. Cafwyd trafodaeth a derbyniwyd y Cyfrifon yn gywir. Arwyddodd y Cadeirydd, Geraint Rowlands, ar ran y Cyngor, ffurflen BDO.

h. Derbyniwyd (24/3/2017) £85 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at ail osod beddfaen ar y diweddar Lilian Roberts a Raymond Arthur Roberts.

i. Bil (18/3/2017) am £46 oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, am archwilio cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2015 – 2016.

Penderfynwyd talu'r bil.

j. Llythyr (18/3/2017) oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn dweud ei fod yn cynig ei hun fel archwiliwr mewnol am y flwyddyn ariannol 2016 – 2017. Mae wedi cael gwahoddiad i ymgymryd â'r gwaith gan rai cynghorau ac wedi derbyn. Mae eisiau gwybod os rydym ni angen ei wasanaeth. Os rydym, mae angen ein dogfenau ar Mai 25, 2017.

Rhoddwyd gwybod iddo (6/4/2017) mi fyddwn yn ddiolchgar iddo ymgymryd â'r gwaith fel archwiliwr mewnol y Cyngor.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2017

Llythyr ateb (8/4/17) oddi wrth Mr Roberts yn diolch am y gwahoddiad i weithredu fel Archwiliwr Mewnol.

l. Anfonwyd (1/4/2017) copi o fanylion yswiriant y Cyngor i gwmi Zurich i gael pris ganddynt.

ll. Llythyr (3/4/2017) oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) yn rhoi manylion am y newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus. Amgáu mae tabl yn dangos y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y cynghorau am 2017/18. Y swm ar gyfer ein Cyngor yw £841.17. Maent eisiau gwybod cyn 22 Ebrill os rydym am fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu. Amgáu hefyd mae holiadur i'w gwblhau.

Penderfynwyd cwblhau'r holiadur a rhoi gwybod iddynt rydym am fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu.

m. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2017: £6,569.66.

## **6. Mynwent Llanelltyd**

Nid oedd adroddiad.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Nid oedd adroddiad.

## **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (29/3/2017) oddi wrth Eirlys Roberts yn rhoi gwybod ei bod yn ymddiswyddo o'r Cyngor.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Mrs Roberts rydym yn derbyn ei ymddiswyddiad gyda thristwch. Bydd yn golled fawr hebddi oherwydd mae wedi cymryd diddordeb yn ei chymuned ac wedi bod yn ffyddlon o fod yn bresennol yn ein cyfarfodydd.

b. Llythyr (30/3/2017) oddi wrth Rheolaeth Adeiladau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybodd mae Glenn Howells Architects, Birmingham yn bwriadu dymchwel Heddwch, Llanelltyd. Amgáu mae rheolau mae Glenn Howells Architects i'w dilyn.

## **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

## **10. Materion Brys**

a. Penderfynwyd lleoli yr hysbysfwrdd yn Bontddu yn yr ardd wrth Bont Bontddu.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2017

b. I gydymffurfio gyda rheolau cyfarfodydd, Penderfynwyd:

- i. anfon yr Agenda i'r aelodau ar ddydd Gwener cyn dydd Mawrth y cyfarfod.
- ii. ni chaniateir trafod materion sydd ddim ar yr Agenda heblaw bod y materion o bwys.

-----